# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 9 Tachwedd 2000

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg
7 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

### Ymgymryd â Chynlluniau yn y Cytundeb Partneriaeth

**C5 Ieuan Wyn Jones:** A wnaiff Jenny Randerson bennu amserlen ar gyfer ymgymryd â'r cynlluniau yn adran 'celfyddydau, diwylliant a chwaraeon' y cytundeb partneriaeth? (OAQ7658)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg (Jenny Randerson):** Bydd yn rhaid rhoi ystyriaeth fanwl bellach i bob elfen o'r cytundeb. O'r herwydd, nid wyf fi mewn sefyllfa i roi amserlen ar gyfer yr holl gynlluniau ar hyn o bryd. Byddaf yn gweithio'n agos gyda'r Pwyllgor Diwylliant newydd, y cyrff cyhoeddus perthnasol a noddir gan y Cynulliad a'r partïon perthnasol eraill, er mwyn bwrw ymlaen â'r cynlluniau cyn gynted â phosibl a chytuno ar yr amserlen ar gyfer eu cynnal.

### Creu Cronfa Ffilmiau Cymru

**C8 Christine Humphreys:** Pa gamau a gymerwyd tuag at greu cronfa ffilmiau Cymru? (OAQ7661)

**Jenny Randerson:** Mae'r cytundeb partneriaeth yn ein rhwymo i ymchwilio i'r syniad o greu cronfa ffilmiau i Gymru. Mae Sgrîn, Asiantaeth y Cyfryngau i Gymru, yn siarad â Chyllid Cymru ynghylch sut y gellid gwneud hyn. Byddaf yn cyfarfod â Sgrîn maes o law i drafod y mater.

### Canolfan Mileniwm Cymru

**C9 Alun Pugh:** A yw Jenny Randerson wedi cyfarfod â rheolwyr Canolfan Mileniwm Cymru? (OAQ7674)

**Jenny Randerson:** Yr wyf wedi trefnu i gyfarfod â Chadeirydd bwrdd Canolfan Mileniwm Cymru, Syr Alan Cox, er mwyn cael trafodaeth lawn ar y prosiect. Darparodd Prif Weinidog Cymru ddatganiad llawn i'r Cynulliad ar y prosiect ar 12 Hydref ac ni fu unrhyw ddatblygiadau a fyddai'n gofyn am ddatganiad pellach gennyf fi. Fodd bynnag, byddaf yn llwyr hysbysu'r Pwyllgor Diwylliant o unrhyw ddatblygiadau pwysig yn y dyfodol.

### Gweithredu Argymhellion Adroddiad y Celfyddydau a Diwylliant

**C10 Cynog Dafis:** A wnaiff Jenny Randerson ddatganiad ynghylch gweithredu argymhellion adroddiad y celfyddydau a diwylliant? (OAQ7655)

**Jenny Randerson:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ymateb a roddais i Peter Black (OAQ7637) yn y Cyfarfod Llawn heddiw.

### Strategaeth ar gyfer y Celfyddydau

**C11 Jonathan Morgan:** A wnaiff Jenny Randerson ddatganiad ynghylch ei strategaeth ar gyfer y celfyddydau? (OAQ7595)

**Jenny Randerson:** Disgrifir sylfaen ein polisi diwylliannol yn ‘Gwellcymru.com’ ac yn yr egwyddorion a’r cynlluniau a ddisgrifir yn y cytundeb partneriaeth ‘Rhoi Cymru’n Gyntaf’. Bellach, mae gennym hefyd yr adroddiad cynhwysfawr ar y celfyddydau a diwylliant gan y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 Oed. Bydd yr adroddiad hwn, a gefnogir gan yr holl bleidiau, yn darparu’r sylfaen ar gyfer y polisi diwylliannol y byddaf yn ei lunio drwy drafod â Chyngor Celfyddydau Cymru, awdurdodau lleol a chymuned y celfyddydau.

**Sefydlu Oriel Genedlaethol ar gyfer Celfyddyd Fodern**

**C12 David Melding:** Pa bryd y bydd Jenny Randerson yn gwireddu yr addewid a wnaed adeg yr etholiad i sefydlu oriel genedlaethol ar gyfer celfyddyd fodern? (OAQ7597)

**Jenny Randerson:** Yr wyf yn falch bod Orielau ac Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru wrthi’n cynnal adolygiad helaeth ar y dull o arddangos ei gasgliad celfyddydol. Bydd yr adolygiad yn edrych ar y dewision ar gyfer arddangos y casgliad i’r dyfodol, ac yn cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus yn 2001.

**Ariannu’r Celfyddydau yng Nghymru**

**C13 John Griffiths:** Pa fesurau y gellir eu cymryd i gynyddu’r arian sydd ar gael i’r celfyddydau yng Nghymru? (OAQ7664) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Adolygiad Celfyddydau a Diwylliant y Cynulliad**

**C14 Mick Bates:** Pa gynlluniau sydd gan Jenny Randerson i fwrw ymlaen ag adolygiad celfyddydau a diwylliant y Cynulliad? (OAQ7666)

**Jenny Randerson:** Fe’ch cyfeiriaf at yr ymateb a roddais i Peter Black (OAQ7637) ar y mater hwn yn y Cyfarfod Llawn heddiw.

**Gwybodaeth am y Celfyddydau yng Nghymru**

**C15 Christine Humphreys:** Pa gynlluniau sydd gan Jenny Randerson i sicrhau bod gwybodaeth am y celfyddydau yng Nghymru ar gael yn ehangach? (OAQ7660)

**Jenny Randerson:** Yn unol â’r ymrwymiadau yn ein cytundeb partneriaeth, byddaf yn gofyn i Gyngor Celfyddydau Cymru sefydlu cronfa ddata ar y celfyddydau yng Nghymru, a gwefan ar gyfer y celfyddydau Cymreig i gynnwys manylion cwmnïau a digwyddiadau celf.

Bydd angen i’r cyngor ystyried y ffordd orau o ddylunio a strwythuro’r gronfa ddata a’r wefan, er mwyn iddo adeiladu ar y gwaith y mae wedi’i ddechrau eisoes yn y maes hwn, ac ategu yn hytrach na chystadlu yn erbyn cronfeydd gwybodaeth am y celfyddydau y mae sefydliadau cenedlaethol a lleol eraill yn eu cyhoeddi ar y we.

Mae’r cyngor hefyd yn dosbarthu amrywiaeth eang o ddeunydd am y celfyddydau yng Nghymru, o fewn Cymru ac yn rhyngwladol, trwy gyfrwng Celfyddydau Cymru Rhyngwladol a’i waith gyda’r cyfryngau ledled Cymru.

Mae gan y cyngor hefyd ei wefan ei hun ac mae wrthi’n diweddaru ei gysylltiadau electronig â’r cymunedau celf a’r cyhoedd yn gyffredinol.

Mae’r cyngor hefyd wedi sefydlu swyddfa hyrwyddo i roi cyhoeddusrwydd i waith artistiaid Cymru yn ystod Blwyddyn yr Artist.

**Annog Pobl i Gymryd Rhan mewn Chwaraeon**

**C16 John Griffiths:** Pa strategaeth y gellir mynd ar ei thrywydd o ran annog pobl i gymryd rhan mewn chwaraeon yng Nghymru? (OAQ7639) ***Tynnwyd yn ôl***.

**Cynlluniau ar gyfer Canolfan y Mileniwm**

**C17 Alison Halford:** A wnaiff Jenny Randerson roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y cynlluniau ar gyfer Canolfan y Mileniwm? (OAQ7635)

**Jenny Randerson:** Cyfarfu fy swyddogion â phrif weithredwr Canolfan Mileniwm Cymru ar 18 Hydref. Gofynnwyd iddi baratoi cynllun gweithredu manwl ar gyfer cam nesaf y prosiect, yn amlinellu'r llwybr i sicrhau dyluniad cyflawn ar gyfer y ganolfan i gam D Sefydliad Penseiri Prydeinig Brenhinol erbyn Chwefror 2001, a'r costau manwl sydd yn gysylltiedig â chyrraedd y pwynt hwnnw. Derbyniwyd y papur hwnnw ac mae wrthi'n cael ei gloriannu gan swyddogion.

**Cyllid Sportlot**

**C18 Christine Chapman:** A wnaiff Jenny Randerson ddatganiad ynghylch y ganran o gyllid Sportlot sydd yn dod i Gymru? (OAQ7640)

**Jenny Randerson:** Rheolir cronfa chwaraeon y loteri, Sportlot, gan Gyngor Chwaraeon Cymru.

Yn wreiddiol, cafodd Cymru 5 y cant o gronfa chwaraeon y loteri, yn seiliedig ar gyfran y boblogaeth. Ers mis Gorffennaf 1999, UK Sport yw'r corff sydd yn dosbarthu arian y loteri, a dyrannwyd 9.2 y cant o'r gronfa iddo. Mae UK Sport yn defnyddio'r arian hwn i gefnogi rhaglen World Class Performance, sydd yn darparu ar gyfer athletwyr elitaidd y DU. Cefnogir athletwyr mwyaf dawnus Cymru gan y rhaglen hon sydd lefel uwchlaw Elite Cymru.

Yr wyf yn parhau â'r negodiadau gyda'r Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn ein hymgais i gynyddu cyfran yr arian loteri a ddyrennir i fyd y celfyddydau a chwaraeon yng Nghymru.

**Adolygu'r Gwasanaeth Amgueddfeydd Ysgolion**

**C19 Rosemary Butler:** Pa gynlluniau sydd gan Jenny Randerson i adolygu'r gwasanaeth amgueddfeydd ysgolion a ddarperir gan Orielau ac Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru? (OAQ7634)

**Jenny Randerson:** Mae Orielau ac Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru eisoes yn paratoi polisi diwygiedig fel y gall gefnogi ysgolion a dysgu gydol oes. Erbyn diwedd y flwyddyn hon, bydd gan Orielau ac Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru swyddogion addysg yn ei holl safleoedd am y tro cyntaf yn ei hanes.

Mae swyddogion Orielau ac Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru yn ymgynghori ag awdurdodau addysg lleol i drafod gwasanaeth yr amgueddfa yn y maes (benthyciadau), ac i bwyso a mesur meysydd i'w datblygu. Mae nifer yr ymweliadau ysgol â safleoedd amgueddfeydd wedi cynyddu 8 y cant ers i'r Cynulliad Cenedlaethol ddarparu arian i roi mynediad am ddim i bartïon ysgol.

Mae Orielau ac Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru yn cefnogi ac yn noddi swyddog ar gyfer SCAN, sef Rhwydwaith Agenda 21 Ysgolion a'r Gymuned, ac mae ganddi wefan sydd yn annog ysgolion i astudio problemau amgylcheddol lleol a dyfeisio atebion ar eu cyfer.

Mae gwefan Orielau ac Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru, sydd yn ehangu'n gyflym, yn rhoi mynediad i brosiectau addysgol gan gynnwys sylw byw ar-lein i'r gloddfa archeolegol Lychlynnaidd ar Ynys Môn, safle rhyngweithiol ar 'y Teulu Celtaidd', yn seiliedig ar CD-ROM addysgol, a phrosiectau gwe unigol sydd yn ymwneud ag arddangosiadau.

## Hyrwyddo Dwyieithrwydd

**C20 Cynog Dafis:** Pa fesurau sydd gan Jenny Randerson i hyrwyddo dwyieithrwydd yng Nghymru? (OAQ7656)

**Jenny Randerson:** Bydd y gyllideb ddrafft a gyflwynwyd gan y Llywodraeth bartneriaeth yn rhoi cynnydd sylweddol yn y nawdd i Fwrdd yr Iaith Gymraeg dros y tair blynedd nesaf, fel yr argymhellodd y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 Oed. Bydd hyn yn galluogi'r bwrdd i roi hwb ychwanegol i'w brosiect i annog trosglwyddiad iaith oddi mewn i'r teulu, a thaenu mentrau iaith yn ddaearyddol. Hefyd, byddaf yn cyflwyno is-ddeddfwriaeth y flwyddyn nesaf i gynyddu nifer y sefydliadau cyhoeddus y gellid mynnu, wedyn, eu bod yn paratoi cynlluniau Iaith Gymraeg ffurfiol. Yn ychwanegol, caiff cynllun Iaith Gymraeg newydd y Cynulliad ei hun ei gyflwyno, i gael cymeradwyaeth yr Aelodau, y flwyddyn nesaf.

## Annog Pobl Ifanc i Gymryd Rhan mewn Chwaraeon

**C21 Nick Bourne:** A wnaiff Jenny Randerson roi adroddiad ynghylch unrhyw gynlluniau sydd ganddi i lansio mentrau newydd i annog pobl ifanc Cymru i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon? (OAQ7598)

**Jenny Randerson:** Mae'r polisi i annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon eisoes wedi'i sefydlu, ac fe'i disgrifir yn nogfen strategaeth y Cyngor Chwaraeon 'Pobl Ieuainc yn Gyntaf', a gyhoeddwyd y llynedd.

Mae Campau'r Ddraig yn annog plant rhwng 7 ac 11 mlwydd oed i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon all-gwricwlaidd ac yn ceisio gefnogaeth gan rieni a gwirfoddolwyr i fod yn hyfforddwyr, dyfarnwyr a gweinyddwyr. Mae'r cynllun yn helpu i ddatblygu adrannau iau, a meithrin cysylltiadau rhwng clybiau ac ysgolion drwy weithgareddau ar ôl ysgol.

Mae'r Cyngor Chwaraeon yn ceisio sefydlu cynlluniau Campau'r Ddraig yn hanner yr holl ysgolion cynradd yng Nghymru erbyn blwyddyn 2005.

Mae'r Cyngor Chwaraeon hefyd yn ceisio sefydlu cynlluniau Clwb 500 Cymru, er mwyn rhoi i blant, rhwng 11 ac 16 yn bennaf, amgylchedd clwb wedi'i strwythuro'n dda, sydd yn canolbwyntio ar y plant, clwb a rydd iddynt gyfle i gysylltu â strwythur datblygu'r gamp y maent yn ei chwarae.

## Trafodaethau ynghylch Big Pit

**C22 Lynne Neagle:** Pa drafodaethau fu rhwng Jenny Randerson ac Orielau ac Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru ynghylch Big Pit? (OAQ7662)

**Jenny Randerson:** Disgwyliaf drafod Big Pit â'r llywydd pan ymwelaf ag Orielau ac Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru ar 15 Tachwedd. Bydd ein cynigion ar gyfer y gyllideb yn sicrhau bod yr amgueddfa yn gallu rhoi sylw i'r diffygion refeniw yn Big Pit. Bydd hyn yn diogelu ei ddyfodol drwy sicrhau grant cyfalaf o £4.9 miliwn gan gronfa treftadaeth y loteri.

## Cyfrifoldebau Cyllideb

**C23 Alun Cairns:** A wnaiff Jenny Randerson ddatganiad ynghylch ei chyfrifoldebau ei hun o ran y gyllideb? (OAQ7605)

**Jenny Randerson:** Cyflawnaf fy nghyfrifoldebau ariannol yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 19. Mae fy mhrif gyfrifoldebau o ran y gyllideb yn ymwneud â Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Orielau ac Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Cyngor Llyfrau Cymru a Chyngor Amgueddfeydd Cymru.

**Dyfodol Adeilad yr Hen Lyfrgell yng Nghaerdydd**

**C24 Owen John Thomas:** Pa gynlluniau sydd o dan ystyriaeth ynghylch dyfodol adeilad yr hen lyfrgell yng Nghaerdydd? (OAQ7642)

**Jenny Randerson:** Mater i Gyngor Dinas a Sir Caerdydd yw hwn, gan mai'r cyngor sydd yn berchen ar adeilad yr hen lyfrgell.

**Defnyddio Neuadd y Ddinas Caerdydd fel Oriel Genedlaethol**

**C25 David Melding:** A wnaiff Jenny Randerson ymchwilio i ddichonolrwydd defnyddio Neuadd y Ddinas yng Nghaerdydd fel oriel genedlaethol? (OAQ7594) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Sefydlu Re:source ar gyfer Cymru**

**C26 David Davies:** A oes gan Jenny Randerson unrhyw gynlluniau i sefydlu *re:source* ar gyfer Cymru? (OAQ7654)

**Jenny Randerson:** Byddaf yn cyflwyno papur ymgynghori ddechrau'r flwyddyn nesaf yn gofyn am safbwyntiau ar strwythurau cynghori posibl ar gyfer amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd yng Nghymru. Mae'r Athro Hywel Roberts o Adran Astudiaethau Llyfrgell a Gwybodaeth, Prifysgol Cymru Aberystwyth yn fy helpu gyda'r gwaith paratoi ar gyfer y papur ymgynghori. Mae ef yn trafod â chynrychiolwyr y sectorau amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd er mwyn fy hysbysu ynghylch i ba raddau y ceir consensws ar y ffordd fwyaf priodol i fwrw ymlaen. Byddwn yn mabwysiadu'r model sydd yn gwneud y mwyaf o synnwyr i Gymru. Byddwn yn ystyried effeithlonrwydd trefniadol, cost-effeithiolrwydd, anghenion y sectorau unigol, a'r fantais o annog cydweithrediad clòs rhyngddynt yng Nghymru tra'n cynnal cysylltiadau, lle bo hynny'n ddymunol, â'r sefydliadau cyfatebol yn Lloegr.

**Hyfforddi Athletwyr Ifanc (Trefniadau Cyllid)**

**C27 Christine Gwyther:** Pa drefniadau cyllid sydd yn eu lle ar gyfer hyfforddi athletwyr ifanc ledled Cymru? (OAQ7601) ***Tynnwyd yn ôl***.

**Hyrwyddo Beicio ar Ynys Môn**

**C28 Peter Rogers:** A wnaiff Jenny Randerson ddatganiad ynghylch dyrannu arian i hyrwyddo beicio fel camp a gweithgaredd hamdden ar Ynys Môn? (OAQ7657)

**Jenny Randerson:** Sianelir cefnogaeth ariannol y Cynulliad ar gyfer gweithgareddau chwaraeon drwy Gyngor Chwaraeon Cymru, a'i gyfrifoldeb ef yw penderfynu ar yr arian a ddyrennir i brosiectau a sefydliadau penodol.

Mae'r cyngor yn darparu cymorth grant o £89,000 i Undeb Beicio Cymru, a £19,000 ychwanegol i feicwyr unigol dan gynllun Elite Cymru.

Mae'r Cyngor Chwaraeon wedi gwahodd awdurdodau lleol i ymgeisio, drwy gystadleuaeth, am arian loteri er mwyn adeiladu Lôn Las Cymru. Mynegodd cyngor Ynys Môn ei fod am wneud cais ond, yn ddiweddarach, penderfynodd dynnu ei gais yn ôl.

Mae'r Rhwydwaith Beiciau Cenedlaethol, a agorwyd ym mis Mehefin 2000 ac a gefnogir gan arian y loteri, yn cyrraedd pob rhan o'r DU, gan gynnwys Ynys Môn, a chynigia ffyrdd diogel i'r gwaith, i'r ysgol ac at fwynderau.

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wrthi'n pwyso a mesur cais Ynys Môn am grant trafnidiaeth i wella'r cyfleusterau ar gyfer beicwyr a cherddwyr yn Llangefni. Byddwn yn gwneud penderfyniadau ar hwn ac ar geisiadau eraill o gwmpas dechrau'r flwyddyn.

### Yr Amgueddfa Diwydiant a Môr Newydd yn Abertawe (Trafodaethau)

**C29 Nick Bourne:** A wnaiff Jenny Randerson roi adroddiad ynghylch unrhyw drafodaethau a fu rhyngddi ag Amgueddfa Genedlaethol Cymru o ran yr Amgueddfa Diwydiant a Môr newydd yn Abertawe? (OAQ7599)

**Jenny Randerson:** Dyma un o'r pynciau y byddaf yn eu trafod â'r llywydd pan ymwelaf â'r amgueddfa yn swyddogol am y tro cyntaf ar 15 Tachwedd.

### Canolfan Mileniwm Cymru

**C30 Alun Pugh:** A oes gan Jenny Randerson unrhyw gynlluniau i wneud datganiad ynghylch Canolfan Mileniwm Cymru? (OAQ7673)

**Jenny Randerson:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i OAQ7674.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

### Hyrwyddo Datblygu'r Gallu i Gynhyrchu Ynni Adnewyddadwy

**C7 Helen Mary Jones:** I ba raddau y mae'r Llywodraeth yn hyrwyddo datblygu'r gallu i gynhyrchu ynni adnewyddadwy fel ffordd o arallgyfeirio gwledig? (OAQ7670)

**Carwyn Jones:** Mae'r Llywodraeth yn croesawu ymrwymiad y Cynulliad i fabwysiadu agwedd gadarnhaol at gyfleoedd twf ym maes ynni adnewyddadwy, a gafwyd yn sgîl y ddadl ar ddatblygu cynaliadwy yn y Cyfarfod Llawn ym mis Medi. Byddwn yn symud ymlaen â'r ymrwymiad hwn fel rhan o strategaeth ddatblygu economaidd genedlaethol y Cynulliad. Yr ydym eisoes yn ystyried potensial masnachol datblygu bio-màs, gan gynnwys coedlannau cylchdro byr, yng Nghymru er mwyn cynhyrchu ynni adnewyddadwy fel rhan o'n cynlluniau i annog arallgyfeirio yng nghefn gwlad.

### Cymorth y Comisiwn Coedwigaeth i Hela Llwynogod ar ei Dir

**C8 Lorraine Barrett:** A wnaiff Carwyn Jones ddatganiad ar y cymorth y mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn ei roi i weithgareddau sy'n ymwneud â hela llwynogod ar ei dir? (OAQ7626)

**Carwyn Jones:** Nid yw'r Comisiwn Coedwigaeth yn rhoi unrhyw gefnogaeth i weithgareddau hela llwynogod ar ei dir. Nid yw ond yn caniatáu hela llwynogod os gwneid hynny'n draddodiadol neu os cedwir yr hawl i hela yn nheitl y comisiwn. Ambell dro, fodd bynnag, mae'r comisiwn yn talu ffi fechan i gymdeithasau rheoli llwynogod er mwyn iddynt saethu llwynogod ar dir y comisiwn. Mae llawer o goedwigoedd y comisiwn yn terfynu â ffermydd defaid ac, fel cymydog cyfrifol, disgwylir i'r comisiwn reoli'r llwynogod sydd ar ei dir. Mae'r cymdeithasau rheoli llwynogod yn cynorthwyo wardeiniaid y comisiwn gyda'r dasg hon.

### Y Berthynas Rhwng Cyswllt Ffermwyr a Chyswllt Busnes

**C9 Brian Hancock:** Beth yw'r berthynas rhwng Cyswllt Ffermwyr a Chyswllt Busnes? (OAQ7616)

**Carwyn Jones:** Mae Cyswllt Ffermwyr yn gynllun a weithredir dan y cronfeydd strwythurol diwygiedig a'r cynllun datblygu gwledig ar gyfer Cymru; bydd yn darparu gwasanaethau cynghori, gwybodaeth a hyfforddiant, cyfle i fanteisio ar grant ar gyfer arallgyfeirio a gwella ffermydd ynghyd â pheirianwaith trosglwyddo technoleg yng Nghymru gyda'r bwriad o ddarparu gwybodaeth ymarferol i ffermwyr ar lefel

leol wedi'i gysylltu â grwpiau a ffermydd arddangos. Bwriedir iddo hefyd ddarparu cyngor busnes un-i-un am ddim gan gynnwys arolwg o fusnesau ffermydd a fydd yn edrych ar holl elfennau busnes y fferm ac yn helpu ffermwyr i benderfynu sut i fwrw eu busnes ymlaen.

Un ffordd o fanteisio ar Cyswllt Ffermwyr yw drwy Cyswllt Busnes, sydd yn fan cyswllt cyntaf allweddol ar gyfer rhoi cyngor a chyfarwyddyd i gwmnïau yng Nghymru sydd yn ceisio cysylltu â'r gwasanaethau y mae arnynt eu hangen.

**Arian ar Gyfer Prosiectau Arallgyfeirio**

**C10 Alun Cairns:** A wnaiff Carwyn Jones ddatganiad ar y modd y mae'n bwriadu cydlynu'r arian ar gyfer prosiectau arallgyfeirio yn y diwydiant amaethyddiaeth? (OAQ7671)

**Carwyn Jones:** Daw'r arian ar gyfer prosiectau arallgyfeirio ym maes amaethyddiaeth o nifer o ffynonellau gan gynnwys y cronfeydd strwythurol Ewropeaidd, y cynllun datblygu gwledig ar gyfer Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol ei hun. Caiff y rhain eu cydlynu gan y grwpiau partneriaeth a sefydlir dan y cronfeydd strwythurol a'r bartneriaeth bwyd-amaeth.

**Arallgyfeirio yn y Gymru Wledig**

**C11 Brian Hancock:** Sut y mae Carwyn Jones yn bwriadu annog arallgyfeirio yn y Gymru wledig? (OAQ7689)

**Carwyn Jones:** Mae'r Cynulliad wrthi'n llunio ystod o gynigion i annog arallgyfeirio yn y Gymru wledig. Dyma'r cynigion allweddol:

- datblygu busnesau ffermydd: helpu ffermwyr i ddilyn yr ymarfer gorau, sicrhau bod eu busnes yn perfformio ar ei orau a datblygu ffynonellau incwm gwahanol neu ychwanegol;
- Cyswllt Ffermwyr: darparu gwasanaethau cynghori, gwybodaeth a hyfforddiant, y cyfle i fanteisio ar grantiau ar gyfer arallgyfeirio a gwella ffermydd a throsglwyddo technoleg drwy ffermydd arddangos;
- arolwg o fusnesau ffermydd: cyngor busnes un-i-un, am ddim, i edrych ar holl elfennau busnes y fferm a chynghori ffermwyr ar sut i fwrw eu busnes ymlaen;
- grantiau cyfalaf: bydd y rhain ar gael i helpu ffermwyr i ddilyn yr ymarfer gorau, gwella lles anifeiliaid, hylendid ac ansawdd eu cynnyrch, er mwyn gwella, amddiffyn a chynnal amgylchedd y fferm a symud i feysydd newydd sydd yn ymwneud ag amaethyddiaeth megis cnydau newydd, symud i sectorau newydd megis amaeth-dwristiaeth a chychwyn prosesau gwerth ychwanegol ar raddfa fach o'r newydd neu ddatblygu rhai sydd yn bodoli eisoes.

Byddwn hefyd yn darparu grantiau prosesu a marchnata a grantiau datblygu marchnadoedd, a fydd yn creu'r galw am gynnyrch sylfaenol o Gymru drwy ddatblygu prosesau gwerth ychwanegol yng Nghymru.

Bydd y cynigion hyn yn defnyddio nawdd o'r cronfeydd strwythurol Ewropeaidd, y cynllun datblygu gwledig ac Awdurdod Datblygu Cymru yn ogystal â'r Cynulliad Cenedlaethol, gan gefnogi buddsoddiad gan y sector preifat.

Yn ogystal, yr ydym yn hybu'r trawsnewid i ffermio organig drwy'r strategaeth bwyd-amaeth a'r cynllun gwybodaeth ar drawsnewid i ffermio organig ac yr ydym yn ystyried posibilrwydd masnachol nifer o sectorau eraill fel bio-màs, dyfryddiaeth, garddwriaeth organig a chnydau amgen eraill.

Yn ddiweddar, cyhoeddasom adroddiad o'n hastudiaeth i asesu posibilrwydd datblygiad economaidd pysgodfeydd morol a mewndirol; mae'r astudiaeth hon hefyd yn cloriannu arallgyfeirio ffermydd i ddyfryddiaeth.

### Arian Ewropeaidd sydd ar gael i Gynlluniau Amaeth-amgylcheddol

**C12 Cynog Dafis:** A yw Carwyn Jones wedi gwneud unrhyw gynrychiolaethau i sicrhau bod yr holl arian Ewropeaidd sydd ar gael i gynlluniau amaeth-amgylcheddol yn cael ei drosglwyddo i'r Cynulliad Cenedlaethol? (OAQ7684)

**Carwyn Jones:** Nid oes angen gwneud cynrychiolaethau o'r fath gan y bydd y cyfan o adnoddau'r cynllun datblygu gwledig sydd ar gael i Gymru yn cael eu trosglwyddo'n otomatig i'r Cynulliad. (OAQ7684)

### Goblygiadau'r Ddogfen 'Rhoi Cymru'n Gyntaf' i Gymru Wledig

**C13 Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff Carwyn Jones ddatganiad i egluro goblygiadau'r ddogfen 'Rhoi Cymru'n Gyntaf' i Gymru wledig? (OAQ7687)

**Carwyn Jones:** Yr oedd y ddogfen 'Rhoi Cymru'n Gyntaf' ei hunan yn cynnwys cydnabyddiaeth glir o'r problemau sydd yn wynebu cymunedau cefn gwlad ledled Cymru, ac yn nodi'r prif bolisïau yr eir i'r afael â hwy yng Nghymru wledig a'r adnoddau y bydd eu hangen er mwyn eu rhoi ar waith. Mae'r gyllideb ddrafft a gyflwynwyd i'r Cynulliad gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar 26 Hydref yn rhoi ystyriaeth lawn i'r blaenoriaethau hynny.

### Y Defnydd o Loi Sugno sydd dros ben yn y Diwydiant Cig Llo yng Nghymru

**C14 Richard Edwards:** A wnaiff Carwyn Jones ddatganiad ar y defnydd a wneir o loi sugno sydd dros ben yn y diwydiant cig llo yng Nghymru? (OAQ7609)

**Carwyn Jones:** Cydnabyddaf fod diweddu cynllun cymorth prosesu lloi y Comisiwn Ewropeaidd wedi peri anawsterau ar gyfer y sector llaeth.

Ym mis Ebrill, lansiais y cynllun peilot Veal Cymru, sydd yn gwbl gydnaws â strategaeth bwyd-amaeth y Cynulliad Cenedlaethol o ddynodi marchnadoedd newydd ac ychwanegu gwerth at gynnyrch o Gymru. Mae'r cynllun peilot yn ymwneud â magu anifeiliaid, drwy gontract, ar gyfer arbenigwyr cig lloi SERVAL SA a chwmni Anglo Dutch Meats.

Maes o law, bydd Coleg Technoleg a Chelf Caerfyrddin yn cyflwyno ei arfarniad o'r cynllun peilot. Yr wyf yn gwir obeithio y bydd hwn yn dangos y ffordd i fanteisio i'r eithaf ar farchnata cynnyrch cig lloi o Gymru.

### Goblygiadau Cyllideb Ddrafft y Cynulliad i Gymru Wledig

**C15 Dafydd Wigley:** A wnaiff Carwyn Jones ddatganiad i egluro goblygiadau cyllideb ddrafft Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Gymru wledig? (OAQ7686)

**Carwyn Jones:** Trafodwyd goblygiadau cyllideb ddrafft y Cynulliad i holl gymunedau Cymru yn llawn gan y Cynulliad ar 26 Hydref, ac ystyriodd y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig y gyllideb ddrafft mewn perthynas â Chymru wledig ddoe. Mae'r gyllideb ddrafft yn caniatáu ar gyfer rhoi rhaglenni cronfeydd strwythurol a'r cynllun datblygu gwledig ar waith yn llawn, gan gynnwys ein blaenoriaethau ar gyfer datblygu ein strategaeth bwyd-amaeth ymhellach, prosesu sydd yn ychwanegu gwerth, addasu ffermydd drwy Cyswllt Ffermio, gan gynnwys mabwysiadu arferion busnes cynaliadwy a modern, ac ehangu cynlluniau amaeth-amgylcheddol megis Tir Gofal a'r cynllun ffermio organig.

### Helpu Ffermwyr i Arallgyfeirio

**C16 David Davies:** Beth y mae Carwyn Jones yn ei wneud i helpu ffermwyr i arallgyfeirio? (OAQ7608)

**Carwyn Jones:** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i OAQ7689.

**Adroddiad Phillips ar BSE**

**C17 Peter Rogers:** A fydd camau pellach yn cael eu cymryd i ymateb i adroddiad Phillips ar BSE? (OAQ7669)

**Carwyn Jones:** Fel a ddynodwyd yn fy natganiad yn y Cyfarfod Llawn ar 30 Hydref, bydd y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig a'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn archwilio manylion yr adroddiad. Yn ogystal, mae'r Cynulliad Cenedlaethol, ar y cyd â gweinyddiaethau datganoledig eraill, yn gysylltiedig yn agos â'r broses adolygu a gynhelir yn awr gan Lywodraeth y DU.

**Marchnadoedd Ffermwyr**

**C18 Geraint Davies:** Faint o farchnadoedd ffermwyr sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd yng Nghymru? (OAQ 7630)

**Carwyn Jones:** Ni cheir diffiniad swyddogol o farchnadoedd ffermwyr, ac mae marchnadoedd yn bodoli ar wahanol lefelau ac mewn cymunedau o wahanol faint. Fodd bynnag, mae Awdurdod Datblygu Cymru mewn cysylltiad â 18 marchnad ffermwyr mewn rhai o'r dinasoedd a'r trefi mwy yng Nghymru. Cynhelir rhai o'r marchnadoedd hyn mewn rhagor nag un cymuned.

**Penderfyniad i Wrthod y Rheoliadau Hadau (Rhestr Genedlaethol o Amrywiadau) 2000**

**C19 Janet Ryder:** Sut y bydd Carwyn Jones yn cynrychioli ac yn gweithredu'r penderfyniad a wnaed gan y Cynulliad Cenedlaethol ar 19 Hydref i wrthod y Rheoliadau Hadau (Rhestr Genedlaethol o Amrywiadau) 2000? (OAQ7681)

**Carwyn Jones:** Gan mai'r penderfyniad oedd gwrthod y Rheoliadau, nid oes dim byd i'w weithredu. Mae Llywodraeth y DU yn ymwybodol o'r sefyllfa.

**Safon Byw Ffermwyr yn Ne Cymru**

**C20 Jonathan Morgan:** A fydd Carwyn Jones yn gwneud datganiad ar sut y mae'n bwriadu gwella safon byw ffermwyr yn ne Cymru? (OAQ7614) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Cynnydd yr Adolygiad o Bysgodfeydd Môr**

**C21 Richard Edwards:** A fydd Carwyn Jones yn gwneud datganiad ar hynt yr adolygiad o bysgodfeydd môr? (OAQ7610)

**Carwyn Jones:** Cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus ar yr astudiaeth ar hyn o bryd yn sgîl ei chyflwyno i'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ar 14 Medi. Daw'r cyfnod ymgynghori i ben ar 31 Rhagfyr; yna byddwn yn pwyso a mesur y sylwadau a gafwyd ac yn penderfynu ar sut y gall y Cynulliad gefnogi'r diwydiannau pysgota Cymreig orau.

**Annog Ffermwyr Ifanc i'r Diwydiant**

**C22 Pauline Jarman:** Sut y mae Carwyn Jones yn bwriadu annog ffermwyr ifanc i'r diwydiant yng Nghymru? (OAQ7692)

**Carwyn Jones:** Credaf mai'r ffordd orau o annog ffermwyr ifanc i'r byd ffermio yw drwy ddatblygu diwydiant byw, arloesol. Bydd y mesurau yr wyf yn eu sefydlu dan y cynllun datblygu gwledig a rhaglenni'r cronfeydd strwythurol diwygiedig, gan gynnwys Cyswllt Ffermwyr, datblygiad parhaus y strategaeth bwyd-amaeth, a'r adnoddau ychwanegol sydd ar gael i'r cynllun ffermio organig a'r cynllun

Tir Gofal, ynghyd â'r gwaith a wnawn ar arallgyfeirio ffermydd, yn helpu i greu diwydiant o'r fath. Fe wnaf ymholiadau i weld sut y gellir rhoi cymorth pellach i ffermwyr ifanc.

### Costau Archwilio ar Ladd-dai Bychan

**C23 Cynog Dafis:** Pryd y mae Llywodraeth Cymru yn mynd i weithredu i leihau costau archwilio ar ladd-dai bychan? (OAQ7683)

**Carwyn Jones:** Yr ydym yn awyddus i ysgafnhau'r baich ar ladd-dai bach a chanolig eu maint ac mae adnoddau wedi eu neilltuo er mwyn gwneud hynny. Yr ydym yn pwyso o hyd am gynllun ar gyfer Prydain er mwyn cydymffurfio â rheolau cystadleuaeth Ewrop.

### Costau Ffermio sy'n Gysylltiedig â'r Llywodraeth

**C24 David Melding:** A fydd yn gwneud datganiad ar sut y mae'n bwriadu gostwng costau ffermio sy'n gysylltiedig â'r Llywodraeth. (OAQ7621) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Gwrthod y Rheoliadau Had (Rhestr Genedlaethol o Amrywiadau) 2000

**C25 Jocelyn Davies:** Sut y mae Carwyn Jones yn bwriadu gweithredu o ganlyniad i benderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol i wrthod y Rheoliadau Had (Rhestr Genedlaethol o Amrywiadau) 2000? (OAQ7615)

**Carwyn Jones:** Mae hwn yn fater i gael ei drafod yn y grwp strategaeth addasu genetig arfaethedig.

### Cynllun Ymddeoliad Cynnar i Ffermwyr

**C26 Alun Cairns:** A wnaiff Carwyn Jones ddatganiad ar gyflwyno cynllun ymddeoliad cynnar i ffermwyr? (OAQ7624)

**Carwyn Jones:** Nid oes gennyf unrhyw gynlluniau i gyflwyno cynllun ymddeoliad cynnar i ffermwyr. Yr wyf wedi penderfynu y byddai'n well anelu'r adnoddau a fyddai'n ofynnol i ariannu cynllun o'r fath at fesurau eraill i gynorthwyo'r diwydiant, gan gynnwys mwy o arian ar gyfer mesurau datblygu gwledig, amaeth-amgylcheddol ac organig.

### Cynllun ar gyfer Newydd-ddyfodiaid

**C27 Rhodri Glyn Thomas:** A gafodd Carwyn Jones unrhyw sylwadau yn ymwneud â'r cynllun ar gyfer newydd-ddyfodiaid? (OAQ7676)

Derbyniwyd sylwadau yn sgîl y ddogfen ymgynghori 'Ffermio ar gyfer y Dyfodol' a chyflwynodd nifer o gyrff sylwadau i ADAS Consulting Cyf yn ystod y gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan y Cynulliad yn gynharach eleni. Ers yr haf, yr wyf wedi derbyn dau gyflwyniad gan y diwydiant, un yn nodi y gellid defnyddio'r adnoddau y byddai eu hangen i ariannu'r cynllun yn fwy effeithiol mewn nifer o feysydd megis arallgyfeirio amaethyddol, tra oedd y llall o blaid cynllun i newydd ddyfodiaid.

### Effaith Mesurau'r UE i Ddifodi BSE

**C28 David Davies:** A wnaiff Carwyn Jones ddatganiad ar effaith mesurau'r Undeb Ewropeaidd i ddifodi BSE yng Nghymru? (OAQ7602)

**Carwyn Jones:** Mae mesurau rheoli'r DU ac Ewrop wedi gostwng nifer yr achosion o BSE a gadarnhawyd o 2,296 yn 1994, i 60 yn 2000 (hyd at 1 Medi 2000).

### Arian Ewropeaidd i Gynlluniau Amaeth-amgylcheddol

**C29 Elin Jones:** A wnaiff Carwyn Jones ddatganiad ynghylch yr arian Ewropeaidd sydd ar gael i gynlluniau amaeth-amgylcheddol? (OAQ7688)

**Carwyn Jones:** Mae darpariaeth ar gyfer cynlluniau amaeth-amgylcheddol gan gynnwys Tir Gofal, y cynllun ffermio organig a chynlluniau caeedig megis cynllun yr ardaloedd amgylcheddol arbennig yn rhan o gynllun datblygu gwledig Cymru, a gymeradwywyd gan y Comisiwn Ewropeaidd y mis diwethaf. Mae’r gyllideb ddrafft a gyflwynwyd i’r Cynulliad ar 26 Hydref yn cadarnhau cyllidebau’r cynlluniau hyn ar gyfer 2001-02 hyd 2003-04.

### Ffurflenni Cais am Grantiau Amaethyddol

**C30 Nick Bourne:** Pa gynlluniau sydd gan Carwyn Jones i’w cynnig ar gyfer lleihau’r mân-reolau a’r fiwrocratiaeth yn y ffurflenni cais am grantiau amaethyddol? (OAQ7625)

**Carwyn Jones:** Yng ngoleuni’r sylwadau a gafwyd gan ffermwyr mewn ymateb i’n harolwg o gwsmeriaid yn gynharach eleni, mae’r Adran Amaethyddiaeth yn sefydlu grwp cynllunio ffurflenni, a fydd yn cynnwys ffermwyr wrth eu gwaith, er mwyn cyflwyno ffyrdd o safoni a symleiddio ffurflenni cais ar gyfer cynlluniau’r polisi amaethyddiaeth cyffredin. Y nod yw lleihau dyblygu a biwrocratiaeth a gwella ansawdd yn gyffredinol, a bydd hyn yn gwneud bywyd yn haws i ffermwyr yng Nghymru. Fel mesur dros dro yr ydym eisoes wedi cyflwyno fersiwn mwy cryno o ffurflen gais y cynllun premiwm arbennig eidion drwy ei thocio o 12 tudalen i ddwy.